



Ein cyf/Our ref EM/1480/22

Joel James AS  
Aelod Senedd dros Ganol De Cymru

[Joel.James@Senedd.Cymru](mailto:Joel.James@Senedd.Cymru)

3 Mai 2022

Annwyl Joel,

Yn ystod y ddadl ar fferylliaeth gymunedol yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Mawrth, fe wnaethoch dynnu fy sylw at y cynnydd mewn rhagnodi opioidau dros y deng mlynedd diwethaf. Mae'n dda gennyf allu rhannu manylion pellach â chi ynglŷn â'r twf mewn rhagnodi opioidau, gan amlinellu'r strategaethau sy'n cael eu gweithredu gennym i roi sylw i faterion sy'n ymwneud â rhagnodi opioidau mewn modd amhriodol.

Mae'r wir bod pryderon sylweddol ynghylch y defnydd eang o opioidau i ladd poen, yn enwedig rheoli poen nad yw'n gysylltiedig â chanser. Mae opioidau'n gallu achosi effeithiau annymunol sylweddol yn y tymor byr a'r tymor hir, ac mae'n bosibl y gallai unigolion ddarparu'r cyffuriau hyn i bobol eraill a'u camddefnyddio. Mae lleihau nifer y presgripsiynau opioid a ddarperir yn ddiangen ac yn amhriodol yng Nghymru wedi bod yn flaenoriaeth ers nifer o flynyddoedd.

Fel gwledydd eraill, rydym ni yma yng Nghymru wedi gweld cynnydd mewn rhagnodi opioidau. Mae'r data rhagnodi'n cadarnhau y bu cynnydd o oddeutu 33% dros gyfnod o ddeng mlynedd, sef 2009/10 i 2019/20, yn nifer y presgripsiynau opioid ar gyfer rheoli poen. Mae [dadansoddiad](#) o'r presgripsiynau a ddarparwyd yn Lloegr yn dangos cynnydd tebyg yn ystod yr un cyfnod. Cyrhaeddodd nifer y presgripsiynau opioid ei lefel uchaf yn 2016/17, ond ers hynny mae nifer y presgripsiynau hyn ar gyfer rheoli poen wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall. Yn 2020/21, roedd y nifer 3.1% yn is na'r nifer yn 2016/17.

Hefyd, gwelwyd llwyddiant o ran ymdrechion y byrddau iechyd i leihau'r defnydd o opioidau cryfach sy'n gallu bod yn fwy o broblem ac sy'n gysylltiedig â chael eu hailgyfeirio i eraill a'u defnyddio'n anghyfreithlon. Ers 2016/17, bu gostyngiad o 27.3% yn nifer y presgripsiynau tramadol; sef gostyngiad o dros 130,000 o bresgripsiynau tramadol bob blwyddyn. Yn yr un modd, mae presgripsiynau ar gyfer opioidau cryf wedi gostwng 15.8%, sy'n dangos bod presgripsiynau'n symud oddi wrth opioidau cryf i rai gwannach .

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwelliannau mewn rhagnodi yn cael eu cefnogi gan ein strategaeth ehangach ar gyfer cynorthwyo pobl sydd mewn poen cronig. Ym mis Ebrill 2019, fe wnaethom gyhoeddi [Byw â Phoen Di-baid yng Nghymru](#). Nod y canllawiau yw cefnogi'r gwaith o reoli gwasanaethau, gan wella dealltwriaeth o'r dulliau gweithredu gwahanol sydd ar gael i reoli poen parhaus, yn ogystal ag annog gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i ddefnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol wrth gynnig gofal a chymorth rheoli i unrhyw un sy'n byw gyda phoen parhaus. Yn ddiweddar, penodwyd Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Poen Parhaus i helpu i weithredu'r egwyddorion yn ein canllawiau *Byw â Phoen Di-baid* ac i gefnogi gwasanaethau wrth inni adfer o effeithiau COVID-19.

Mae rhagnodi opioidau yn un o dri maes blaenoriaeth o fewn y Dangosyddion Rhagnodi Cenedlaethol sy'n cael eu cymeradwyo gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru (AWMSG). Nod y dangosyddion rhagnodi opioidau yw hyrwyddo'r defnydd priodol o opioidau a'r trefniadau adolygu perthnasol mewn gofal sylfaenol; gan leihau'r perygl o ran creu dibyniaeth, ailgyfeirio i eraill, camddefnyddio, a chael effeithiau annymunol.

Diolch ichi am dynnu fy sylw at y mater hwn. Rwy'n gobeithio bod hyn yn rhoi rhywfaint o gyd-destun defnyddiol mewn perthynas â rhagnodi opioidau yng Nghymru, gan gynnig sicrwydd ein bod yn cydnabod ei bod yn bwysig gwella, a'n bod yn gweithredu i sicrhau hynny yn y maes hwn.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Wedi ei gopio at Lefarwyr Iechyd yr Wrthbleidiau